**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

1 Ebrill 2025

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2023-24**

Ar ôl sesiwn y Pwyllgor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 Llywodraeth Cymru ar 19 Chwefror 2025 mae'n bleser gennyf roi ymatebion mewn perthynas â'r wybodaeth bellach rydych wedi gofyn amdani fel y'i nodwyd yn Atodiad A a B i'r llythyr hwn.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn helpu'r Pwyllgor yn ei fyfyrdodau terfynol a bod y sesiwn dystiolaeth a fynychwyd gennym mewn perthynas â chyfrifon 2023-24 yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Atodiad A**

Sesiwn dystiolaeth ddilynol - Craffu ar Gyfrifon: Llywodraeth Cymru 2023-24

---

**1.** Yn y cyfrifon, rydych yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu strategaeth ymadael sy'n archwilio'r gost yn erbyn y budd o ran a ddylid parhau â'r gwaith o fonitro, yn dilyn y gystadleuaeth, ei grantiau busnes COVID-19. Yn y sesiwn, fe wnaethoch gytuno i ddarparu nodyn yn ymhelaethu ar eich ymateb llafar. Edrychwn ymlaen at gael y nodyn hwnnw.

**Ymateb:**
Mae'r strategaeth ymadael wedi'i chwblhau bellach. Daw gwaith monitro ar ôl cwblhau'r Gronfa Cadernid Economaidd i ben yn chwarter cyntaf 2025-26. Ceir crynodeb o'r strategaeth isod.

Bu'r Gronfa Cadernid Economaidd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r cyfanswm o £2.6bn a ddarparwyd i fusnesau drwy gydol y pandemig. Rhoddwyd mwy na 26,000 o grantiau i fusnesau yn ystod y cyfnod hwn. Cydnabuwyd y byddai angen gwaith monitro ar ôl cwblhau helaeth. Sefydlwyd tîm monitro ar ôl cwblhau, ac anfonwyd cais am wybodaeth at bob busnes a oedd wedi cael grant er mwyn sicrhau bod y grant yn angenrheidiol o dan delerau ac amodau'r llythyr dyfarnu grant.

Arolygwyd grantiau i fusnesau bach a'r rhai yn y categori BBaCh y dyfarnwyd £30,000 neu lai iddynt. Anfonwyd cais monitro ar ôl cwblhau llawn at bob busnes arall a oedd wedi cael grant yn gofyn iddo roi tystiolaeth bod y gwariant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Gwnaeth y tîm monitro ar ôl cwblhau gyhoeddi arolygon yn unol â'r gofynion a nodwyd ac a dderbyniwyd gan Grŵp Goruchwylio'r Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer BBaChau a dyfarniadau o dan £30,000. Mae pob cwmni mawr (mwy na 250 o gyflogeion a'r grantiau unigol mwyaf) hefyd wedi cael ei gwblhau.

Mewn cytundeb â Grŵp Goruchwylio'r Gronfa Cadernid Economaidd a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, oherwydd adenillion lleihaol a threigl amser (pum blynedd ar ôl cam 1 o'r Gronfa Cadernid Economaidd), bwriedir i'r tîm beidio â gwneud unrhyw waith pellach ar fonitro ar ôl cwblhau o ddiwedd mis Mawrth 2025.

Oherwydd nifer y gweithiau a'r ymdrech a wnaed eisoes i gysylltu â'r busnesau, cynigir y dylid cymryd y camau canlynol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Rydym wedi cysylltu â phob busnes o leiaf deirgwaith am wybodaeth heb ei chyflwyno. Ni fydd unrhyw waith pellach yn cael ei wneud i gysylltu eto â'r busnesau nad ydynt wedi ateb neu sydd wedi peidio â rhyngweithio â thîm monitro ar ôl cwblhau Llywodraeth Cymru.
- Ym mhob achos rydym wedi anfon ein llythyr 'torri amodau' ffurfiol sy'n nodi, ar ôl pob ymgais i gael yr wybodaeth fonitro angenrheidiol, y caiff anfoneb ei hanfon os na ddaw ymateb i law ac os na roddir yr wybodaeth heb ei chyflwyno.
- Bydd anfoneb ffurfiol bellach yn cael ei hanfon at bob achos sy'n weddill er mwyn adennill y grant yn sgil torri'r telerau ac amodau.
- Bydd y tîm monitro ar ôl cwblhau yn cyflwyno'r holl wybodaeth am fusnesau i Hwb Diwydrwydd Dyladwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fel y gall rheolwyr grantiau eraill wirio hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.
- Bydd anfonebau yn cael eu codi gan y tîm monitro ar ôl cwblhau a fydd yn parhau i gydgysylltu â'r tîm dyled canolog. Byddant ar system gyllid Llywodraeth Cymru, a elwir yn SAP.
- Ni fydd y tîm dyled canolog yn ymgymryd ag unrhyw broses Dunning bellach o ystyried bod digon o amser wedi mynd heibio, a bod pob busnes eisoes wedi cael llawer o gyfleoedd i ymateb yn unol â Dunning.
- Bydd tîm monitro ar ôl cwblhau'r Gronfa Cadernid Economaidd yn cwblhau'r broses o gau'r gwaith monitro ar ôl cwblhau yn ffurfiol erbyn diwedd Chwarter 1 2025-26.

**2.** Yn unol â'r pwynt uchod, gwnaethoch hefyd gytuno i fynd i'r afael â'r pwynt a wnaed gan y Cadeirydd ynghylch gweinyddu grantiau busnes COVID:

> If you could also provide a note addressing whether you've carried out any work in that context regarding the business grants—the COVID business grants— regarding the differential way the discretionary local authority powers were exercised. I know, just in my area, some were very permissive, but not fraudulent; others were extremely restrictive and even denied that they had discretionary powers, and that would have been reflected in the numbers of grants, presumably, awarded. So, I don't know if you've done any work on that, but if you have, I'd be grateful if you could address that subsequently.

**Ymateb:**
Gyda diolch i'r Cadeirydd a oedd yn gallu rhoi sawl achos lle roedd ceiswyr i gynlluniau a ddarperir gan awdurdodau lleol yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

oherwydd y ffordd y cafodd y canllawiau eu cymhwyso am fod disgresiwn wedi cael ei arfer yn wahanol, mae pob un o'r achosion hyn wedi cael eu hadolygu a'u hystyried.

Roedd pob un o'r enghreifftiau yn ymwneud â chymhwyso cymorth i lety hunanddarpar a llety gwely a brecwast yn y sector twristiaeth. Y prif fater oedd nifer y diwrnodau roedd yr eiddo wedi'i osod a/neu ei feddiannu i fod yn gymwys i gael y cymorth a gynigir lle roedd cyfyngiadau sector yn cael eu cymhwyso. Fel rhan o'r canllawiau, cafodd swyddogion 151 awdurdodau lleol bwerau disgresiynol i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol a fyddai'n cosbi'r ceisydd yn annheg yn cael eu lliniaru. Ar ôl archwilio'r achosion a ddarparwyd a'u trafod â'r awdurdodau lleol perthnasol, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o asesu na dyfarnu annheg. Roedd yr achosion dan sylw ymhell o fodloni'r gofyniad cymhwystra i gael cyllid hyd nes y byddai arfer unrhyw ddisgresiwn yn amhriodol.

Er bod hyn yn wir am yr enghreifftiau a adolygwyd, derbynnir y pwyntiau a wnaed gan y Cadeirydd y dylai arfer "disgresiwn" bob amser fod yn seiliedig ar ganllawiau cadarn a gwiriadau i sicrhau ei fod yn cael ei arfer yn gyson gan y rhai sy'n cyflawni'r gweithgarwch, sef y 22 awdurdod lleol yn yr achos hwn. Yn ystod dwy flynedd y pandemig, daeth yr economi twristiaeth ac ymwelwyr o dan bwysau mawr felly mae angen sicrhau bod cymhwyso prosesau'n gyson a thegwch yn ystyriaeth allweddol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

## Llunio'r Cyfrifon

- Yn y Cyfrifon, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw GCRE Limited wedi ei ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol eto a'i fod wrthi'n ceisio buddsoddiad ariannol preifat ar gyfer dyfodol hirdymor yr endid. Beth yw statws presennol GCRE Limited; a yw wedi denu buddsoddiad preifat?

**Ymateb:**
Cafodd GCRE Limited ei ddosbarthu gan y SYG ym mis Medi 2024 i'r is-sector llywodraeth ganolog yn weithredol o 24 Awst 2021.

Erys statws y prosiect yn ddigyfnewid. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo'r cwmni yn ei ymdrechion i sicrhau buddsoddiad preifat ond mae hefyd yn cynllunio ar gyfer atebion cyllido amgen os methir â denu buddsoddiad preifat yn llawn neu'n rhannol.

Os bydd unrhyw newid i strwythur neu drefniadau llywodraethu'r cwmni fel rhan o sicrhau buddsoddiad preifat, efallai y bydd angen i'r SYG adolygu'r dosbarthiad yn y dyfodol.

## Llywodraeth Cymru 2025

- Sut ydych chi'n gwella amrywiaeth eich gweithlu (o gofio eich bod chi wedi gosod "cynlluniau a thargedau uchelgeisiol") ac yn sicrhau llif o ddoniau ar draws y sefydliad ers i chi atal recriwtio prentisiaid a swyddogion ar y llwybr carlam newydd dros dro ar gyfer 2024-25?

**Ymateb:**
Mae'r heriau presennol sy'n wynebu'r gyllideb ar gyfer y gweithlu wedi effeithio ar ein huchelgais i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol yn ein gweithlu, sy'n cyfyngu ar yr opsiynau rydym wedi gallu eu mabwysiadu o ran cynlluniau recriwtio a gweithgarwch allgymorth estynedig.

Er gwaethaf hynny, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddenu maes amrywiol o ymgeiswyr drwy wella proffil Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru fel cyflogwr


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

cynhwysol a dileu rhwystrau yn ein prosesau recriwtio allanol a dyrchafu mewnol – gan sicrhau mwy o chwarae teg i bawb a rhoi'r cyfle gorau i bawb lwyddo.

Mae ein perfformiad cyffredinol yn erbyn y targedau recriwtio ar gyfer 2024 wrthi'n cael eu hadolygu ond mae ymgyrch recriwtio allanol Cymorth Tîm yn eithaf calonogol. O ganlyniad i allgymorth wedi'i deilwra, proses ymgeisio symlach a chymorth gan ein gwasanaeth addasiadau recriwtio, gwelsom gynnydd sylweddol mewn canlyniadau llwyddiannus i ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a oedd yn rhagori ar y nod o 20%. Ymarfer cydgynhyrchu oedd yr ymgyrch, lle roedd rhwydweithiau amrywiaeth staff yn rhoi'r arweiniad ac yn ymgymryd â'r gweithgarwch graffu yr oedd eu hangen i sicrhau ein bod yn ymdrin â phob ymgeisydd yn deg.

**Llywodraeth Cymru 2025**

- Nodwn sylwadau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2023 bod llawer o'r arbedion a nodwyd yn 2023-24 yn rhai untro a bod heriau ariannol o'u blaenau. A allwch chi nodi maint yr her ariannol a wyneboch yn 2023-24 a'r goblygiadau ar gyfer 2024-25?

**Ymateb:**
Nodwyd maint yr her ariannol a wynebwyd yn 2023-24 a'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i'r her honno yn y 'Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024 Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau | LLYW.CYMRU a'r 2[il] Gyllideb Atodol ganlyniadol ar gyfer 2023-24 Ail Gyllideb Atodol 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU.

Roedd y gwaith yn seiliedig ar set o egwyddorion clir er mwyn sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu hyd y gellir a sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd roedd yr argyfwng costau byw yn effeithio arnynt fwyaf. Rhoddwyd ystyrriaeth i bwysigrwydd diogelu swyddi hefyd.

Ystyriodd Gweinidogion lle y gellir gohirio neu ailflaenoriaethu gwariant, neu lle y gellid gwneud toriadau i ryddhau cyllid i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus craidd a pharhau i roi cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Er mwyn lleihau'r effaith ar wasanaethau, gwnaed penderfyniadau i leihau gwariant drwy ailflaenoriaethu neu ohirio gweithgarwch lle bynnag y bo modd, yn hytrach na thorri neu derfynu rhaglenni. Adolygwyd cyllidebau yn ôl y galw ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a lle mae gwariant yn is na'r lefelau disgwyliedig, rhyddhawyd arbedion.

Roedd y camau a gymerwyd yn cynnwys:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn a chronfeydd wrth gefn Cymru a chadw lefelau darbodus ar yr un pryd;
- Gwaith cynllunio yn seiliedig ar ddefnyddio symiau canlyniadol a ddisgwylir gan Lywodraeth y DU;
- Gwneud cais am newid o gyfalaf i refeniw gan Lywodraeth y DU;
- Gwneud cyfuniad o arbedion refeniw a chyfalaf mewn cyllidebau adrannol (Prif Grwpiau Gwariant).

O ystyried maint yr her, roedd llawer o'r gostyngiadau mewn gwariant a nodwyd yn yr ymarfer yn ystod 2023-24 yn rhai afreolaidd (megis gohirio gwariant, defnyddio incwm, cyfleoedd i wneud arbedion untro). Fel camau afreolaidd, erys heriau sylweddol o hyd i leihau gwariant yn ymarfer Cyllideb 2024-25.

Nodwyd manylion llawn cynlluniau ariannol 2024-25, gan gynnwys newidiadau o 2023-24 a'r rhesymau dros wneud newidiadau i gynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, yn y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25 [Cyllidebau Llywodraeth Cymru LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru).

**Materion ynghylch y gweithlu**

- Roedd lefelau salwch yn is yn 2023-24 na'r flwyddyn flaenorol, ac rydych chi'n priodoli hynny'n bennaf i ddirywiad yn nifer yr achosion o COVID-19. Fodd bynnag, rydych chi'n nodi "cynnydd bach" mewn absenoldeb sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl ac yn ei nodi fel un o'r meysydd allweddol y byddwch chi'n canolbwyntio arno yn y flwyddyn i ddod. Pa mor gyffredin yw absenoldeb staff oherwydd problemau iechyd meddwl a sut ydych chi'n mynd i'r afael ag ef?

**Ymateb:**
Mae'r data cyfredol ar absenoldeb yn dangos bod absenoldeb oherwydd iechyd meddwl yn cyfrif am tua 48% o'r holl achosion o absenoldeb hirdymor oherwydd salwch.

Mae'r Bwrdd Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn dwyn y sefydliad i gyfrif am y cymorth a'r ymyriadau a ddarperir ar gyfer staff er mwyn eu helpu i oresgyn dirywiad mewn iechyd meddwl. Cynhaliodd y Bwrdd archwiliad dwfn o iechyd meddwl yn ddiweddar a barodd am ddau gyfarfod bwrdd. Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad dwfn yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r awr lesiant, archwilio'r angen am hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i bob rheolwr llinell a dadansoddiad mwy rheolaidd o dueddiadau a phatrymau er mwyn ei gwneud yn bosibl inni ddatblygu ymyriadau a chymorth pellach wedi'u targedu yn y lleoedd cywir ar yr adeg gywir.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Rydym yn parhau i gynnig amrywiaeth o becynnau cymorth ac ymyriadau i hyrwyddo a helpu llesiant ac iechyd meddwl cadarnhaol sy'n cynnwys Cynghreiriaid Iechyd Meddwl, Asesiadau o'r Risg o Straen, Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell a Phasbortau'r Gweithle yn ogystal â Rhaglen Cymorth i Gyflogeion a gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

Hefyd, mae'r tîm Cynghori ar Achosion Adnoddau Dynol yn adolygu achosion o absenoldeb hirdymor bob mis er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael cymorth priodol a bod unrhyw addasiadau sydd eu hangen i hwyluso proses o ddychwelyd i'r gwaith yn cael eu rhoi ar waith.

**Gwariant Llywodraeth Cymru**

- Yn ei adroddiad, 'Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, nododd Archwilio Cymru fod WEFO a Llywodraeth Cymru wedi nodi capasiti staff fel risg. Sut ydych chi'n cydbwyso cynnal adnoddau yn WEFO i gynorthwyo'r gwaith o gau'r rhaglen ac adleoli staff i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru?

**Ymateb:**
Mae WEFO wedi talu'r holl hawliadau terfynol a gyflwynwyd gan fuddiolwyr ac mae wedi cyflwyno ei hawliadau terfynol ei hun i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 13 Chwefror 2025. Mae WEFO wedi hawlio cymaint o gyllid yr UE â phosibl ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 ar gyfer pum Rhaglen. Mae WEFO wedi hwyluso buddsoddiad gwerth €4.5biliwn, gan gynnwys €2.5biliwn o gyllid yr UE a €2biliwn o Fuddsoddiad cyhoeddus a Phreifat.

Mae'r mwyafrif o staff WEFO wedi cael eu symud i rolau newydd yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae WEFO wedi cadw digon o adnoddau staff i ymgymryd â'i rhwymedigaethau rheoliadol a rheoli'r broses o gau rhaglenni, gan gynnwys yr archwiliadau rheolaidd o hawliadau terfynol.

**Colledion a Thaliadau Arbennig**

- Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ysgwyddo colled o £2.3 miliwn yn ymwneud â Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru, ac a ellid bod wedi ei hosgoi?

**Ymateb:**
Un o'r gofynion allweddol ar y cam cynnar hwn o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio oedd gosod a gweithredu systemau ynni deallus i drawsyrru data o gartrefi

wedi'u hôl-osod er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth a dysgu gwersi o'r cynllun a llywio polisi a rhaglenni datgarboneiddio preswyl yn y dyfodol. Yn ystod 2023-24, nodwyd bod nifer o systemau ynni deallus a gafwyd yn flaenorol fel rhan o'r rhaglen wedi mynd yn anweithredol, oherwydd newidiadau technolegol a newid llwyfan, a bod angen eu huwchraddio er mwyn sicrhau parhad data o systemau ynni deallus a ddarperir i'r rhaglen. Nid oedd modd uwchraddio pob un o'r unedau ac, ar gyfer 2023-24, arweiniodd hyn at golled (taliad di-fudd) mewn perthynas â'u prynu'n wreiddiol.

Roedd y ffordd y sefydlwyd y dull gwreiddiol o ymdrin â rhanddeiliaid yn golygu ymgysylltu uniongyrchol cyfyngedig â Llywodraeth Cymru. Y sawl a oedd yn gosod y systemau ynni deallus a oedd yn arwain y broses o reoli a chyflawni'r rhaglen, gyda chyllid grant yn cael ei drosglwyddo drwy Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Ymddengys fod hyn wedi arwain at ddiffyg eglurder o ran adrodd ac uwchgyfeirio. Roedd hyn yn golygu nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem a achoswyd gan newid llwyfan, a olygai fod yr unedau yn mynd yn anweithredol, tan ar ôl iddi ddod i'r golwg.

Mae proses fanwl a thrylwyr o ddysgu gwersi wedi cael ei chwblhau, lle mae pob parti wedi ystyried ac wedi myfyrio ar eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gontract uniongyrchol â darparwr y systemau ynni deallus, er mwyn sicrhau tryloywder llawn a bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith tra bydd y rhaglen waith yn cael ei chwblhau. Dylid nodi hefyd fod y dyfeisiau ynni deallus cychwynnol ymhlith y gyfres gyntaf o unedau monitro o'r fath, ac felly eu bod yn agored i'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd.

**Colledion a Thaliadau Arbennig**

- Beth allwch chi ei ddweud wrthym am ymchwiliad twyll y tri grant a dalwyd i'r un unigolion am adnewyddu cyfleusterau gwestai a hamdden mewn dau safle ar wahân, y gwnaethoch eu dileu yn 2023-24?

**Ymateb**

Roedd honiadau wedi codi o ganlyniad i adroddiadau yn y wasg, a blog unigolyn, ynglŷn â thwyll posibl mewn cysylltiad â'r achosion hyn. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybod am unrhyw dwyll yn erbyn Llywodraeth Cymru. Ymddangosai i Lywodraeth Cymru fod y gwestai wedi cydymffurfio â'r dyfarniad grant ar wahân i fethu â chyflwyno adroddiad archwilio annibynnol er inni ofyn am un sawl gwaith.

Trosglwyddwyd y mater i Gangen Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Yr honiadau allanol oedd bod y ceiswyr am grant wedi cyflawni twyll morgais. Fodd bynnag, roedd yr honiad

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

o dwyll yn erbyn banc nad aeth ar drywydd y mater. Gan nad achos honedig o dwyll yn erbyn Llywodraeth Cymru ydoedd, nid oedd unrhyw gamau pellach y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd.

**Colledion a Thaliadau Arbennig**

- Pam wnaeth Llywodraeth Cymru wneud taliad arbennig o £13.1 miliwn (heb gynnwys TAW) i setlo cyfres o hawliadau contractiol ar brosiectau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, a oedd wedi codi oherwydd pwysau chwyddiant; beth fyddai canlyniadau peidio â setlo wedi bod?

**Ymateb**

Roedd y contractau a lofnodwyd ar gyfer tri chynllun ffordd yn seiliedig ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru. Mae'r telerau ac amodau hyn wedi cael eu datblygu dros nifer o flynyddoedd. Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n neilltuo risg ynghylch chwyddiant cyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o'r risg hon yn cael ei hysgwyddo gan y contractwr.

Mae'r cymalau sy'n ymdrin â materion penodol eraill – a all hefyd effeithio ar chwyddiant/prisiau, e.e. newidiadau mewn deddfwriaeth, newidiadau mewn rheolau ynglŷn â gweithredu safleoedd, force majeure, gwrthdaro ac ati yn fwy cynnil, gyda rhai o'r risgiau hyn yn cael eu hysgwyddo gan y contractwr, ac eraill yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae digwyddiadau megis y gwrthdaro yn Wcráin wedi golygu bod contractwyr wedi rhoi ffocws manwl ar eu risgiau – maent wedi achosi i gontractwyr wrthwynebu rhai sefyllfaoedd risg hirsefydlog.

Nid yw'r gwrthwynebiad hwn yn unigryw i Lywodraeth Cymru. Mae'r Priffyrdd Cenedlaethol, HS2, awdurdodau lleol niferus a chyrff eraill ledled y DU wedi gorfod mynd i'r afael â'r realiti nad yw contractwyr yn barod i ysgwyddo risgiau penodol mwyach.

Mae digwyddiadau o'r fath hefyd wedi peri i gontractwyr edrych ar bob cyfle posibl i adfer eu sefyllfa ariannol ar brosiectau. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn yn enghraifft o hyn. Cyflwynodd y contractwr nifer o hawliadau contractiol am arian ychwanegol ar y tri chynllun. Ar yr un pryd, cyflwynwyd hawliad o dan WPPN 09/21 Llywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau gwerth am arian, ystyriodd swyddogion setlo pob un o hawliadau'r contractwr mewn perthynas â WPPN 09/21, chwyddiant a materion eraill – ar bob un o'r tri chynllun. Pe na bai'r holl hawliadau wedi cael eu setlo, byddai Llywodraeth Cymru wedi bod yn agored i'r risg y byddai'r contractwr yn codi hawliadau heb eu setlo yn


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ddiweddarach, h.y. byddai'r contractwr yn dod yn ôl er mwyn ceisio adfer ei sefyllfa, drosodd a throsodd. Talwyd symiau mewn perthynas â WPPN 09/21 o ganlyniad i sefyllfa bolisi Llywodraeth Cymru ac roeddent yn ddisgresiynol. Tybiwyd bod gan y contractwr hawl i'r symiau eraill o dan delerau'r priod gontractau.

Er nad yw'n sicr y byddai'r contractwr wedi dechrau gweithrediadau anghydfod ffurfiol am symiau a oedd yn ddyledus ym marn y contractwr, tybiwyd ei bod yn eithaf tebygol y byddai'n gwneud hynny. Yn ychwanegol at y risg gyffredinol y byddai Llywodraeth Cymru yn colli mewn anghydfod o'r fath, byddai unrhyw anghydfod fwy na thebyg wedi arwain at oedi i'r rhaglen. Byddai hyn yn ei dro wedi effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ERDF mewn perthynas â'r cynlluniau.

**TAW**

- Fe wnaeth archwiliad TAW gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi tanadfer TAW ar gynlluniau ffyrdd yr A487 a'r A465. Pam na chanfuwyd hyn gan swyddogion a pha asesiad ydych chi wedi ei wneud i weld a yw'r mater yn fwy cyffredin?

**Ymateb:**
Nid yw'r adolygiadau o gynlluniau ffordd yr A487 a'r A465 yn rhan o arolygiad TAW CThEF ond maent yn rhan safonol o gymhwyso TAW at gynlluniau adeiladu ffyrdd.

Mae'r broses o adennill TAW ar gynlluniau ffyrdd yn un gymhleth iawn a gall newid drwy gydol oes y prosiect. Ar gyfer cynlluniau ffyrdd, mae canran y TAW y gellir ei hadennill, sy'n seiliedig ar gyfrifiad dosrannu, yn cael ei chymhwyso ar ddechrau'r cynllun ar sail gweithgarwch a chostau adeiladu arfaethedig ond mae canran y gyfradd adennill wirioneddol yn cael ei chadarnhau'n ddiweddarach yn ystod cylch oes cyflawni'r prosiect, a chytunir arni a'i chymhwyso ar y cyd â CThEF a all arwain at ad-daliadau. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda CThEF o 2019 ar gynllun yr A487 ac o 2022 ar gynllun yr A465.

**Llywodraethiant a sicrwydd**

- Pa wersi ydych chi wedi eu dysgu o'r Archwiliad Mewnol ar Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Llywodraeth Cymru, y rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn "dim sicrwydd" arni eto yn 2023-24; a ydych chi bellach wedi gweithredu prosiectau blaenoriaeth a ffrydiau gwaith y Rhaglen hon yn llawn?

**Ymateb:**


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Nododd adroddiad yr Archwiliad fod angen proffesiynoldeb, llywodraethu, cymorth ac arweiniad ym maes Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hagenda newid a bod angen i fwy o arferion, sgiliau a phresenoldeb o ran Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau fod yn weladwy ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Wrth gydnabod natur tymor canolig i hirdymor y gwaith sydd ei angen i wella prosesau Cyflawni Prosiect, o ran Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau rydym wedi mynd ati i ddilyn model arfer gorau, wrth ddefnyddio Cyflawni Prosiect - Fframwaith Asesu Gwelliant Parhaus (CIAF) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1028350/2021-10-22-version-2-Approved-Project-Delivery-Continuous-Improvement-Assessment-Framework__1_.pdf i ymateb i argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a symud ymlaen tuag at lefel Da o ran aeddfedrwydd cyflawni prosiectau.

Er mwyn cyrraedd lefel Da, mae angen ymdrin â 141 o argymhellion ac er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, cydnabyddir y bydd yn cymryd amser i'w roi ar waith a'i ymgorffori ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Wrth weithredu ar y 141 o argymhellion, bydd y rhain hefyd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd hefyd yn aelod o fwrdd y Rhaglen Get-to-Green ac sydd wedi cymryd rhan weithredu o ran sut rydym wedi ystyried ymateb i'r adroddiad.

Mae'r ymdrechion cychwynnol a oedd yn canolbwyntio ar weithredu drwy'r Rhaglen Get-to-Green wedi cynnwys datblygu'r proffesiwn Cyflawni Prosiect, gwella sicrwydd a chydymffurfiaeth, a chyngori ar roi dull Rheoli Portffolio ar waith i sicrhau newid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd allweddol dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys:

- Penodi Prif Swyddog Cyflawni Prosiectau.
- Symud tuag at ddull portffolio o nodi gweithgareddau newid mawr.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith – mae llythyrau penodi Uwch-swyddog Cyfrifol ac Asesiadau o Botensial Risg bellach yn orfodol.
- Cyflwyno Adnodd Sgiliau Ar-lein y Llywodraeth (GOST) i uwch-swyddogion cyfrifol – mae hyn yn cynnwys Dadansoddiad o'r Bylchau mewn sgiliau ar gyfer pob rôl prosiect a'r gallu i nodi, defnyddio a recriwtio'r adnoddau prosiect cywir.
- Cytuno ar gyfres o rolau cyflawni prosiect safonol i Lywodraeth Cymru gyfan sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Galluogrwydd Cyflawni Prosiectau, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i recriwtio ar gyfer rolau prosiect ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.
- Wrthi'n diweddaru holl ddogfennaeth a chanllawiau prosiect gyda ffocws ar lywodraethu, cynllunio a rheoli risg.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Cryfhau'r fframwaith sicrwydd ar gyfer prosiectau – ar gyfer pob prosiect mae'n rhaid enwi uwch-swyddogion cyfrifol sydd wedi cael asesiad GOST cymeradwy.
- Adroddiadau rheolaidd i Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaeth Corfforaethol y Pwyllgor Gweithredol sy'n ailbwysleisio'r ymrwymiad i'r Rhaglen Get-to-Green. Mae adroddiadau o'r fath yn cynnwys darparu data ar sicrwydd, hunanasesiadau o gyflawni prosiect a gweithgareddau newid i wella tryloywder a helpu i sbarduno'r agenda newid.

Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn gam cadarnhaol ymlaen, ond y cam nesaf fydd cael darlun llawnach o'r gweithwyr proffesiynol prosiect yn Llywodraeth Cymru, sef y sbardun i ymgorffori'r lefel o newid diwylliannol sydd ei hangen.

Mae'r tîm eisoes wedi recriwtio nifer o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ei strwythur ac mae wrthi'n ystyried sut i ymgorffori/datblygu arbenigedd a galluogrwydd ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau ar bob gradd yn y tîm. Hefyd, er mwyn mynd i'r afael â phob un o'r 141 o argymhellion bydd angen hefyd ddeall adnoddau a gallu'r sefydliad, gan gynnwys faint o amser y byddai ei angen i ymgorffori'r newidiadau rydym am eu gwneud a mabwysiadu prosesau/adnoddau newydd.

**Llywodraethiant a sicrwydd**

- Pa feysydd hanfodol o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru ydych chi wedi eu nodi i'w diweddaru ar unwaith, a phryd ydych chi'n disgwyl eu cyhoeddi; a ydych chi ar y trywydd iawn i gwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfen gyfan erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon, yn unol â'r bwriad?

**Ymateb:**

Gan fod Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ddogfen hirfaith a chymhleth rydym yn blaenoriaethu rhai penodau i'w diweddaru, gan ddechrau â'r meysydd hynny y mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi nodi bod angen eu diweddaru.

Mae'r meysydd hynny yn cynnwys:

- Diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ar ôl i'n Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf (ac unig Gyfarwyddyd Gweinidogol) gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019 pan nodwyd gennym fod angen mân welliant gweithdrefnol mewn perthynas â rhoi gwybod am fodolaeth Cyfarwyddyd Gweinidogol i'r Pwyllgor Cyllid a'r is-bwyllgorau perthnasol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru i adlewyrchu'r Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau newydd (sydd wedi disodli'r rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol).
- Sicrhau bod y gweithdrefnau a'r prosesau ar gyfer gweinyddu taliadau arbennig yn gyson â'r gweithdrefnau galw i mewn ar gyfer ein cyrff cyhoeddus.
- Mewn ymateb i argymhelliad 18 a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2021-22 byddwn yn diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru i roi mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn golled ddifrifol a sut y caiff y Senedd ei hysbysu ohoni.

Byddwn yn cyhoeddi'r penodau wedi'u diweddaru wrth iddynt gael eu cwblhau. Er ein bod wedi pennu dyddiad dros dro i gwblhau'r prosiect cyfan erbyn mis Rhagfyr 2025, efallai y bydd yr amserlen hon yn cael ei haddasu yn seiliedig ar flaenoriaethau croes eraill.

**Llywodraethiant a sicrwydd**

- A ydych chi wedi rhoi'r dull hunanasesu newydd ar waith ar gyfer sefydliadau unigol, ac wedi ailddechrau'r adolygiad wedi ei deilwra ohonynt; os felly, a allwch chi rannu cynllun cyflwyno gyda'r Pwyllgor?

**Ymateb:**
Nid yw'r dull hunanasesu wedi cael ei roi ar waith eto. Rydym wedi cwblhau'r cam treialu cychwynnol a oedd yn cynnwys addasu model y DU i amgylchedd polisi Cymru a rhoi prawf arno gyda nifer o gyrff yng Nghymru. Bydd swyddogion yn ceisio cytundeb uwch-swyddogion cyn bo hir i'w gyhoeddi er mwyn ei ddefnyddio ar sail dreialu estynedig ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru y tu allan i'r GIG a llywodraeth leol.
Bydd hyn yn golygu y bydd y cyrff hynny, ac eithrio'r rhai sydd wedi profi'r model neu sydd wedi mynd drwy AdolygiadauTeilwredig ers 2021, yn cwblhau'r hunanasesiad erbyn 31 Mawrth 2026 ac yn penderfynu ar y cyd â'u timau partneriaeth pa adolygiadau pellach sydd eu hangen.

Mae Llywodraeth y DU wedi atal y rhaglen o Adolygiadau Teilwredig dros dro ac, yn ôl yr hyn a ddeallwn, nid yw'n bwriadu ei hailddechrau. O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ailddechrau rhaglen o Adolygiadau Teilwredig ond mae'n ystyried cynnig nifer o opsiynau ar gyfer adolygiadau manylach, pellach o gyrff. Bydd hyn yn cynnig dull gweithredu mwy hyblyg o gynnal adolygiadau yn seiliedig ar ganlyniadau pob ymarfer hunanasesu. Caiff diweddariad pellach ar y broses o gyflwyno'r ymarfer hunanasesu ei roi maes o law.

**Crynodeb o Alldro Adnoddau**

- Rydych chi'n dweud yn y nodiadau ar y Crynodeb o Alldro Adnoddau fod nifer o Gyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru wedi gorwario yn 2023-24. Ar wahân i orfod ymdopi â'r gorwario yn eich cyllidebau, beth yw'r goblygiadau i chi (gan gynnwys yr adran noddi) a'r sefydliadau eu hunain?

**Ymateb:**
Byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr cyrff hyd braich a thimau noddi er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith.

**Materion eraill**

- Yn ei lythyr i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024, nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod swyddogion yn paratoi cyngor Gweinidogol ynghylch a ddylid gwerthu'r cyfranddaliad yn TVR Automotive. A oes gan Lywodraeth Cymru gyfran ecwiti o hyd yn TVR Automotive, ac os felly, sut mae hyn yn cynrychioli gwerth am arian?

**Ymateb:**
Ym mis Awst 2024, cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru y penderfyniad i werthu pob cyfran a ddelir gan Lywodraeth Cymru yn TVE Automotive Limited am "Werth Marchnadol Teg", yn unol â Chytundeb y Cyfranddalwyr.

Nid yw'r gwaith o bennu'r gwerth marchnadol teg yn syml. Mae TVRA yn dal i fod yn endid cyn refeniw ac iddo ychydig iawn o werth o ran asedau y tu hwnt i frandio ac nid oes fawr ddim cymariaethau diwydiant na chynllun busnes nad yw wedi cael ei gyflawni eto.

Nid yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto (a delir buddran ecwiti o hyd) ond mae cyd-drafodaethau yn mynd rhagddynt.

- A yw Llywodraeth Cymru bellach wedi prydlesu'r ffatri ar ei newydd wedd yng Nglynebwy; os felly, beth yw telerau'r brydles ac a fydd yn cynhyrchu'r enillion disgwyliedig?

**Ymateb:**
Mae'r eiddo yn dal i fod yn wag ond mae darpar feddiannydd wedi gwneud ymholiad gweithredol yn ei gylch. Mae trafodaethau/negodiadau yn mynd rhagddynt.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

- Faint o eiddo masnachol gwag sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n penderfynu pryd i'w gwerthu?

**Ymateb:**
Ceir lefel eiddo gwag o tua 12% ar yr ystad y gellir ei gosod ar hyn o bryd. Mae 17 o adeiladau cyfan yn wag ar hyn o bryd nad ydynt ar gael i'w gosod ar rent am resymau megis bod angen eu hadnewyddu, eu bod yn destun cynnig, neu eu bod yn aros i gael eu dymchwel.

Caiff asedau ym mhortffolio'r Economi eu gwerthu naill ai'n unol ag amcanion polisi Datblygu Economaidd, neu pan nodir nad oes eu hangen mwyach i gyflawni polisi.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en